# Asesiad Strwythuredig 2023 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3950A2023

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi’r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 8

Adroddiad manwl

Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd 10

Systemau sicrwydd corfforaethol 16

Dull cynllunio corfforaethol 20

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol 24

Atodiadau

Atodiad 1—Dulliau archwilio 29

Atodiad 2—Y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol 31

Atodiad 3—Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio 34

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig 2023 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

2 Cynhaliwyd ein gwaith asesu strwythuredig 2023 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i etifeddiaeth pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system a oedd wedi cronni yn ystod y pandemig. Yn ogystal â hynny, mae cyrff iechyd hefyd yn ymdrin â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Felly, yn fwy nag erioed, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn sy'n gallu rhoi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd uchel, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Bwrdd Iechyd hefyd yn rheoli sawl her sylweddol:

- mae'n parhau i fod mewn ymyrraeth sydd wedi ei thargedu ar gyfer cynllunio a chyllid a monitro gwell ar gyfer materion ansawdd sy'n gysylltiedig â pherfformiad sy'n arwain at amseroedd aros hir a phrofiad gwael i'r claf [1];
- Ym mis Awst 2023, datganodd y Bwrdd Iechyd ddigwyddiad mawr mewnol[2] ar ôl darganfod Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth yn Ysbyty Llwynhelyg, a arweiniodd at gau chwe ward a sawl ardal adrannol er mwyn caniatáu gwaith adferol. Er mwyn lliniaru'r effaith, symudwyd cleifion i Ysbyty De Sir Benfro a rhannau o Ysbyty Llwynhelyg nad oedd Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth yn effeithio arnynt;[3] a
- y llynedd, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Achos Busnes Rhaglen i Lywodraeth Cymru, sy'n cefnogi cynigion i adeiladu ysbyty gofal brys a gynlluniwyd newydd yn unol â'i strategaeth hirdymor. Mae'r penderfyniad yn

[1] O dan y Cyd-drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o leiaf ddwywaith y flwyddyn i drafod perfformiad pob bwrdd iechyd. Mae pedair lefel uwchgyfeirio: trefniadau arferol, monitro uwch, ymyrraeth wedi ei thargedu, a mesurau arbennig.

[2] Mae datgan digwyddiad mawr mewnol yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd godi ei strwythurau gorchymyn a rheoli (Aur, Arian ac Efydd).

[3] Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i ailagor tair ward erbyn mis Rhagfyr 2023.

aros am adolygiad clinigol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ei phroses o wneud penderfyniadau. Digwyddodd hyn yn ystod haf 2023.

4 Ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd yr oedd prif bwyslais y gwaith asesu strwythuredig, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda phwyslais penodol ar dryloywder, cydlyniad ac effeithiolrwydd y Bwrdd, systemau sicrwydd corfforaethol, dull cynllunio corfforaethol, a dull rheoli ariannol corfforaethol. Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredol y Bwrdd Iechyd yn rhan o'r gwaith hwn.

5 Mae ein gwaith wedi ei lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, a ddatblygwyd ac a fireiniwyd dros sawl blwyddyn. Mae hefyd wedi ei lywio gan:

- Orchmynion Rheolau Sefydlog, Cadw a Dirprwyo Pwerau;
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Model;
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru;
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (Ail Argraffiad);
- Canllawiau arferion da perthnasol eraill

6 Cynhaliwyd ein gwaith rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2023. Crynhoir y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**. Rydym hefyd yn darparu diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael ag argymhellion sydd angen sylw a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

# Canfyddiadau allweddol

7 **Ar y cyfan, canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau corfforaethol effeithiol yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'n wynebu heriau perfformiad ac ariannol sylweddol.**

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd

8 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n effeithiol, gan ganolbwyntio ar dryloywder cyhoeddus, llywodraethu da, a gwelliant parhaus. Mae cyfleoedd i wella ymhellach y trefniadau ar gyfer teithiau cerdded diogelwch cleifion, ac er bod y Bwrdd yn gydlynol, bydd angen rheoli cyfnod o newid sylweddol yn dda i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal.**

9 Mae gan y Bwrdd ymrwymiad cryf o hyd i dryloywder cyhoeddus. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi'n dda, a gall aelodau o'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd yn y cnawd neu'n rhithwir. Cedwir sesiynau preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau ar gyfer y materion mwyaf sensitif, gan gyhoeddi agendâu preifat y Bwrdd a chrynodeb lefel uchel o'r trafodaethau ar-lein. Mae cyfle i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu'r trefniad hwn ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hefyd. Er nad yw cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu

hyrwyddo yn yr un modd â chyfarfodydd y Bwrdd, gall aelodau o'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd pwyllgor ar gais.

10 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithio'n effeithiol, gyda chylch gorchwyl a rhaglenni gwaith cyfredol sy'n cyd-fynd yn dda ag amcanion strategol, amcanion cynllunio a risgiau y Bwrdd Iechyd. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cadeirio'n dda, yn dilyn prosesau y cytunwyd arnynt ac yn rhedeg yn brydlon, gyda chefnogaeth dda gan y tîm llywodraethu corfforaethol. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i dderbyn papurau amserol o ansawdd da, ac offer rhyngweithiol i gefnogi sicrwydd, gwaith craffu a'r broses o wneud penderfyniadau yn effeithiol. Mae trefniadau cadarn yn parhau i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau'n effeithiol. Fodd bynnag, er bod y Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol, mae'n profi newidiadau sylweddol y bydd angen eu rheoli'n dda. Mae'r dull cadarn o ddatblygu a gwella'r Bwrdd yn darparu sylfeini da i reoli'r newid hwn, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud popeth y mae'n gallu i sicrhau trawsnewidiad llyfn.

11 Mae'r Bwrdd wedi cynnal ei ymrwymiad i wrando ar gleifion a'r staff, drwy straeon cleifion a'r staff, drwy gynnal Proses Codi Llais heb Ofn a phlatfform Gweithio'n Hyderus, a thrwy annog rhwydweithiau staff a hybu cynlluniau cydnabod staff. Mae aelodau'r Bwrdd wedi cynnal teithiau cerdded diogelwch cleifion rheolaidd, ond daethom o hyd i gyfleoedd i egluro'r broses o gynnal Taith Cerdded Diogelwch Cleifion gydag Aelodau Annibynnol newydd.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

12 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cynnal a gwella systemau sicrwydd corfforaethol sy'n gysylltiedig ag olrhain risgiau ac argymhellion, a bod gan y Bwrdd oruchwyliaeth briodol. Mae'r dull o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn gwella. Er bod goruchwyliaeth gorfforaethol y perfformiad sefydliadol yn gryf, mae lle i gryfhau sicrwydd ar effeithiolrwydd systemau rheoli perfformiad.**

13 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â dull aeddfed o oruchwylio ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ac mae wedi cryfhau yr oruchwyliaeth a'r sicrwydd ymhellach ar ei drefniadau rheoli risgiau drwy adnewyddu ei Strategaeth Rheoli Risgiau a chyflwyno adroddiad sicrwydd risg chwech misol. Cynhaliwyd goruchwyliaeth gref ar lefel gorfforaethol a gwaith craffu ar berfformiad sefydliadol, ac mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo fframwaith rheoli perfformiad Gwella Gyda'n Gilydd, fodd bynnag, mae lle i gryfhau'r sicrwydd ar effeithiolrwydd systemau rheoli perfformiad.

14 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei ddull o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac mae wedi diwygio ei Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd ers y llynedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd ac mae trefniadau cadarn ar gyfer olrhain argymhellion archwilio ac adolygu yn parhau.

## Dull cynllunio corfforaethol

15 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar ei weledigaeth hirdymor, a bod goruchwyliaeth briodol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Blynyddol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau'r broses o oruchwylio cynlluniau corfforaethol eraill, o wella'r amcanion cynllunio ymhellach ac o adolygu'r capasiti i gefnogi gweithgareddau cynllunio**.

16 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ei weledigaeth hirdymor, a chefnogir y broses o ddatblygu cynlluniau, megis y Cynllun Blynyddol a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol, gan oruchwyliaeth corfforaethol priodol a gwaith craffu yn y Bwrdd. Fodd bynnag, o ystyried graddfa heriau y Bwrdd Iechyd, ei ofynion cynllunio yn y dyfodol, a'r angen i gefnogi gwaith cynllunio blynyddol arferol a gwaith cynllunio y gwasanaeth, rydym yn parhau i bryderu am y capasiti i gefnogi'r gweithgareddau hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, drwy gynllun gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i adolygiad annibynnol o drefniadau cynllunio y Bwrdd Iechyd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

17 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ei Gynllun Blynyddol yn parhau i fod yn gadarn, a cheir cefnogaeth bellach gan set o 23 amcan cynllunio symlach, yn hytrach na 75. Gosodir yr amcanion cynllunio o'u cymharu â phedwar parth ac wyth nod cynllunio strategol; fodd bynnag, nid ydynt yn cyd-fynd yn benodol â chwe amcan strategol tymor hwy trosfwaol y Bwrdd Iechyd, sy'n gwneud trefniadau monitro yn llai eglur. Hefyd, mae cyfleoedd yn parhau i fynegi canlyniadau disgwyliedig ar gyfer amcanion cynllunio ac i gryfhau'r broses o oruchwylio cynlluniau corfforaethol eraill heblaw'r Cynllun Blynyddol.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

18 Canfuom, **er gwaethaf proses glir ar gyfer cynllunio ariannol a threfniadau rhesymol ar gyfer rheoli a monitro'r sefyllfa ariannol, fod sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn hynod heriol ar gyfer 2023–24**.

19 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol refeniw ar gyfer 2022–23 a bydd yn parhau i beidio â'u cyflawni yn 2023–24. Gan weithio i ddiffyg ariannol arfaethedig o £112.9 miliwn ar gyfer 2023–24, roedd y Bwrdd Iechyd yn adrodd amrywiad anffafriol o £15.6 miliwn o'i gymharu â'i derfyn adnoddau refeniw ar gyfer Mis 6. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, dywedwyd wrth y Bwrdd Iechyd yn sgil hynny y bydd arian ychwanegol ar gael i leihau'r cyfanswm rheoli diffyg y cytunwyd arno i £48 miliwn. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei sefyllfa gychwynnol a ragfynegwyd, y cydnabu yn ffurfiol ym mis Hydref 2023 na fyddai'n debygol o'i chyflawni.

20 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses glir ar gyfer cynllunio ariannol, ac mae'r Bwrdd yn cyfrannu'n dda, er bod datblygu a chyflawni ei gynllun arbedion yn her. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gofyn am arbedion o £19.5 miliwn, a nodwyd bwlch o £6.6 miliwn

yn yr arbedion a adroddwyd ym Mis 6. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar gyfer rheoli ariannol a rheolaethau, ond mae pwysau parhaus yn arwain at orwario. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da o hyd ar gyfer monitro a chraffu ar ei sefyllfa ariannol, er bod y gwaith craffu yn canolbwyntio ar y Cyfarwyddwr Cyllid. Mae angen llawer mwy o waith craffu ar y tîm gweithredol ehangach ynghylch y sefyllfa ariannol.

# Argymhellion

21 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn **Arddangosyn 1**. Crynhoir ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2023**

| Argymhellion |
|---|
| **Gwella tryloywder cyhoeddus**<br>A1 Canfuom fod papurau'r Bwrdd Cyhoeddus yn cynnwys crynodeb lefel uchel o gyfarfodydd preifat y Bwrdd. Er mwyn gwella tryloywder ymhellach, dylid estyn y trefniad hwn i gyfarfodydd pwyllgorau preifat drwy adroddiadau sicrwydd pwyllgorau unigol a dderbynnir gan y Bwrdd. |
| **Teithiau cerdded diogelwch cleifion gan aelod o'r Bwrdd**<br>A2 Mae aelodau o'r Bwrdd yn cynnal teithiau cerdded Diogelwch Cleifion yn rheolaidd, gyda chefnogaeth aelod o'r tîm diogelwch cleifion sy'n cymryd nodiadau, gyda phroses glir o roi sylwadau i'r gwasanaethau yr ymwelwyd â nhw ac o fonitro pwyntiau gweithredu. Fodd bynnag, nid oedd y rhai a gyfwelwyd gennym yn glir ynghylch yr hyn a ddigwyddodd ar ôl yr ymweliad. Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro proses Taith Cerdded Diogelwch Cleifion gydag Aelodau Annibynnol newydd. |
| **Sicrwydd y trefniadau rheoli perfformiad**<br>A3 O ystyried bod y Bwrdd Iechyd o dan drefniadau Monitro Uwch Llywodraeth Cymru ar gyfer rhai meysydd gwasanaeth, mae lle i ddangos effeithiolrwydd Fframwaith Gwella Gyda'n Gilydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull o roi sicrwydd yn gyfnodol fod ei drefniadau rheoli perfformiad yn gweithio fel y bwriadwyd. |

**Argymhellion**

**Cysoni amcanion cynllunio a strategol**

A4 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i fynegi ei amcanion cynllunio yn ei Gynllun Blynyddol 2023–24 yn well drwy symleiddio’r amcanion cynllunio a’u cymharu ag wyth nod cynllunio strategol a phedwar parth. Fodd bynnag, nid yw’r parthau a’r nodau cynllunio strategol yn gydnaws yn benodol â chwe amcan strategol trosfwaol y Bwrdd Iechyd, fel y nodir yn ei ddangosiadau Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a’r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig. Yn rhan o’r cylch cynllunio nesaf, dylai’r Bwrdd Iechyd nodi’n fwy penodol sut mae pob un o’i amcanion cynllunio yn cysylltu â’i amcanion strategol.

**Craffu ariannol**

A5 Er bod lefel dda o waith craffu ar sefyllfa ariannol y Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy, ar y Cyfarwyddwr Cyllid y mae’r gwaith craffu wedi canolbwyntio’n bennaf. Er bod hyn wedi gwella mewn cyfarfodydd diweddar gydag aelodau o’r Grŵp Cyflawni Craidd a’r Grŵp Rheoli Ariannol sydd bellach yn bresennol, mae angen i’r Bwrdd Iechyd wneud mwy i sicrhau bod y gwaith craffu a wneir gan Aelodau Annibynnol yn canolbwyntio’n briodol ar holl aelodau y tîm gweithredol.

# Adroddiad manwl

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd

22 Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.

23 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n effeithiol, gan ganolbwyntio ar dryloywder cyhoeddus, llywodraethu da, a gwelliant parhaus. Mae cyfleoedd i wella ymhellach y trefniadau ar gyfer teithiau cerdded diogelwch cleifion, ac er bod y Bwrdd yn gydlynol, bydd angen rheoli cyfnod o newid sylweddol yn dda i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal**.

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

24 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes y bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn yn y Bwrdd a'r pwyllgor:

- cyfarfodydd sy'n hygyrch i'r cyhoedd;
- papurau sydd ar gael i'r cyhoedd cyn y cyfarfodydd;
- busnes a phenderfyniadau a wneir yn dryloyw;
- cofnodion cyfarfodydd sydd ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol.

25 Canfuom fod gan **y Bwrdd ymrwymiad cryf o hyd i dryloywder cyhoeddus**.

26 Y llynedd, gwnaethom adrodd fod gan y Bwrdd Iechyd ymrwymiad cryf o hyd i dryloywder cyhoeddus. Erys y trefniadau hyn yn ddigyfnewid. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i hyrwyddo cyfarfodydd y Bwrdd ar ei wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Gall aelodau o'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd yn y cnawd neu'n rhithwir drwy ffrwd fyw. Hefyd, mae cyfarfodydd yn cael eu recordio ac maent ar gael drwy wefan y Bwrdd Iechyd yn syth ar ôl y cyfarfod. Fodd bynnag, nid yw cyfarfodydd pwyllgorau'n cael eu hyrwyddo yn yr un modd â chyfarfodydd y Bwrdd, ac nid ydynt yn cael eu ffrydio'n fyw ychwaith. Dywedodd y Bwrdd Iechyd mai penderfyniad ymwybodol a wnaed mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd yw hwn sy'n ymwneud yn bennaf â'r adnoddau ychwanegol y mae eu hangen i ffrydio a recordio cyfarfodydd. Fodd bynnag, gall aelodau'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd pwyllgorau ar gais.

27 Mae papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i gael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd saith niwrnod cyn y cyfarfodydd. Cedwir nifer y papurau hwyr cyn ised â phosibl. Fel yr argymhellwyd y llynedd (**Atodiad 2 A1a 2022**), ers mis Ionawr 2023, cyhoeddir cofnodion Bwrdd a phwyllgorau nad ydynt wedi eu cadarnhau ar wefan y Bwrdd Iechyd yn fuan ar ôl y cyfarfod. Mae'r cadeirydd priodol a'r prif weithredwr yn cymeradwyo'r cofnodion cyn iddynt gael eu lanlwytho i'r wefan, ac yna maent yn cael eu cadarnhau'n swyddogol yn y cyfarfod nesaf.

28 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gadw sesiynau preifat y Bwrdd a phwyllgorau ar gyfer y materion mwyaf sensitif ac fel yr argymhellwyd y llynedd (**Atodiad 2 A1b 2022**), mae'r Bwrdd yn cyhoeddi ei agendâu preifat ar ei wefan cyn y cyfarfod. Mae

papurau cyhoeddus y Bwrdd hefyd yn cynnwys crynodeb lefel uchel o drafodaethau preifat y Bwrdd, yn Adroddiad Diweddaru'r Pwyllgor[4]. Er mwyn gwella tryloywder ymhellach, dylid estyn y trefniad hwn i gyfarfodydd pwyllgorau preifat drwy Adroddiadau Sicrwydd Pwyllgorau unigol a dderbynnir gan y Bwrdd (**Argymhelliad 1**). Rydym wedi parhau i arsylwi trafodaethau agored a gonest yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau.

## Trefniadau i gefnogi ymddygiad busnes y Bwrdd

29 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn, yn ffurfiol, yn gyfoes ac ar gael i'r cyhoedd:

- Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ar waith, sy'n nodi atebolrwydd yn glir;
- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth;
- polisïau a gweithdrefnau ar waith i hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

30 Canfuom fod **trefniadau cadarn yn parhau i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau'n effeithiol**.

31 Mae Rheolau Sefydlog, Cynllun Cadw a Dirprwyo, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn parhau i gael eu hadolygu ac yn derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd[5] ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg graffu arnynt. Mae'r fersiynau diweddaraf o'r holl ddogfennau hyn ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

32 Mae datganiadau o fuddiant yn parhau i fod yn eitem sefydlog ar holl agendâu y Bwrdd a'r pwyllgorau, ac rydym yn parhau i arsylwi cydymffurfiaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnal gwaith craffu blynyddol ar y trefniadau ar gyfer datgan, cofrestru ac ymdrin â buddiant, rhoddion, lletygarwch a nawdd. Fel yr argymhellwyd y llynedd, mae'r fersiynau diweddaraf o'r cofrestrau hyn a'r polisi safonau ymddygiad bellach ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd (**Atodiad 2 A1c 2022**). Hefyd, mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau da ar waith i sicrhau bod polisïau'n cael eu cadw'n gyfredol a'u cefnogi gan drefniadau goruchwylio priodol.

[4] Mae Adroddiad Diweddaru'r Pwyllgor yn crynhoi cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau nad adroddir arnynt yn unigol. Er enghraifft, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth, y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, cyfarfodydd grwpiau ymgynghorol a chyfarfodydd preifat y Bwrdd.

[5] Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Dirprwyo ym mis Mai 2023, a'r Rheolau Sefydlog, sy'n cynnwys y Cynllun Cadw a Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ym mis Gorffennaf 2023.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau

33 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- strwythur pwyllgor priodol, integredig ac sy'n gweithredu'n dda sydd ar waith, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy'n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i gyflawni gofynion statudol;
- agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau, sy'n cwmpasu pob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio'n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau sy'n cael eu cadeirio'n dda, sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, gydag aelodau'n cadw at ymddygiad y cyfarfodydd ac yn darparu cydbwysedd da o ran craffu, cefnogaeth a her; a
- pwyllgorau sy'n cael sicrwydd gofynnol ac yn gweithredu arno, ac sy'n rhoi sicrwydd amserol a phriodol i'r Bwrdd.

34 Canfuom fod **cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol a'u bod yn parhau i ganolbwyntio ar risgiau ac amcanion strategol**.

35 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithio'n effeithiol, gyda chylch gorchwyl a rhaglenni gwaith cyfoes. Mae'r rhain yn cyd-fynd yn dda ag amcanion strategol, prif risgiau y Bwrdd Iechyd, fel y nodir yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r risgiau corfforaethol.

36 Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cadeirio'n dda, yn dilyn prosesau y cytunwyd arnynt ac yn rhedeg yn brydlon, gyda chefnogaeth dda gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol. Rydym wedi arsylwi her cadarn ac adeiladol gydag aelodau nad oes arnynt ofn tynnu sylw at feysydd pan nad ydynt yn teimlo sicrwydd o'r wybodaeth a gyflwynir neu gan esboniadau a ddarperir gan swyddogion. Mae hyn yn adlewyrchu aeddfedrwydd y Bwrdd ac mae'n dystiolaeth o berthynas adeiladol rhwng Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol. Mae hefyd yn adlewyrchu'r heriau digynsail y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu, yn enwedig o ran cyllid, y gweithlu, a'i ystad. Mae cadeiryddion pwyllgorau yn parhau i gwrdd pob deufis yn dilyn pob cylch o gyfarfodydd, ac mae'r trefniadau ar gyfer croesgyfeirio materion ac atgyfeirio materion at y Bwrdd yn parhau i fod yn gryf. Mae'r Bwrdd yn cael papurau sicrwydd pwyllgor o ansawdd da, sy'n crynhoi trafodaethau a phenderfyniadau allweddol. Mae Adroddiadau Sicrwydd y Pwyllgor yn cynnwys dogfennau ategol ar gyfer materion a gymeradwywyd gan bwyllgorau ac y mae angen cymeradwyaeth y Bwrdd arnynt. Mae hyn yn dangos bod dibyniaeth briodol ar waith craffu gan y pwyllgorau ac mae'n darparu cofnod clir o'r broses o wneud penderfyniadau.

## Ansawdd ac amseroldeb papurau y Bwrdd a'r pwyllgorau

37 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael gwybodaeth amserol o ansawdd uchel sy'n cefnogi gwaith craffu effeithiol, sicrwydd, a'r broses o wneud penderfyniadau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- papurau Bwrdd a phwyllgorau clir ac amserol sy'n cynnwys y lefel angenrheidiol o wybodaeth sydd ei hangen/yn briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, gwaith craffu a sicrwydd.

38 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i gael papurau amserol o ansawdd da, ac offer rhyngweithiol i gefnogi sicrwydd, craffu a'r broses o wneud penderfyniadau yn effeithiol**.

39 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddefnyddio adroddiadau clawr Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad,[6] sydd wedi eu hysgrifennu'n dda ar y cyfan ac sy'n parhau i ganolbwyntio ar faterion allweddol. Cefnogir adroddiadau Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad, sy'n ymwneud yn enwedig â gwybodaeth am risg a pherfformiad,[7] gan offer rhyngweithiol y gall Aelodau Annibynnol gael gafael arnynt a'u harchwilio i gefnogi eu dealltwriaeth a chryfhau gwaith craffu.

40 Ni chodwyd unrhyw faterion ynghylch amseroldeb papurau. Weithiau, caiff papurau diweddaredig eu dosbarthu ychydig cyn y cyfarfod er mwyn sicrhau bod gan Aelodau Annibynnol yr wybodaeth ddiweddaraf. Er enghraifft, os yw'r Bwrdd Iechyd yn derbyn gohebiaeth oddi wrth Brif Weithredwr GIG Cymru ar ôl i bapurau gael eu dosbarthu, mae'r bwndel papur yn cael ei ddiweddaru a'i ailddosbarthu er mwyn cynnwys y llythyr hwn. Ar y cyfan, roedd y cyfweledigion yn canmol ansawdd papurau y Bwrdd a'r pwyllgorau. Ar ôl pob cyfarfod pwyllgor, mae Aelodau Annibynnol ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn cael adroddiad. Mae hyn yn rhoi cyfle i Aelodau Annibynnol godi unrhyw bryderon, gan gynnwys pryderon am ansawdd papurau unigol.

## Ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff

41 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff.

[6] Nid yw'r troednodyn hwn yn berthnasol i'r fersiwn Gymraeg o'r ddogfen.

[7] Dangosfwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a Dangosfwrdd Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig.

42 Canfuom fod **y Bwrdd wedi cynnal ei ymrwymiad i wrando ar gleifion a'r staff, ond mae cyfleoedd i wella trefniadau ar gyfer teithiau cerdded diogelwch cleifion**.

43 Mae'r Bwrdd yn parhau i wrando ar gleifion ym mhob cyfarfod drwy ei Adroddiad Gwella Profiad y Claf, sy'n cynnwys fideos straeon cleifion a sylwadau bachog sy'n cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau. Mae pwyllgorau perthnasol, sef y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a'r Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant, hefyd yn parhau i gael straeon staff a chleifion.

44 Mae aelodau'r Bwrdd wedi cynnal teithiau cerdded Diogelwch Cleifion rheolaidd, ac roedd y rhai a gyfwelwyd gennym yn gadarnhaol ynghylch y trefniadau hyn. Yn ystod yr ymweliad, mae aelod o'r Tîm Diogelwch Cleifion yn cymryd nodiadau, ac mae proses glir ar gyfer darparu sylwadau i feysydd gwasanaeth yr ymwelwyd â nhw, monitro pwyntiau gweithredu, a chyfrannu at yr Adroddiad Sicrhau Ansawdd a dderbynnir gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Fodd bynnag, nid oedd y cyfweledigion yn glir beth oedd yn digwydd ar ôl yr ymweliad, felly mae cyfle i egluro'r broses gydag Aelodau Annibynnol newydd (**Argymhelliad 2**).

45 Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd rhesymol ar ei adolygiad o brofiad y claf. Gwnaeth yr adolygiad ddau argymhelliad blaenoriaeth canolig sy'n ymwneud â lansio'r Siarter ar gyfer Gwella Profiad y Claf yn ffurfiol a gweithredu a hyfforddi staff yn llawn ar system profiad y claf CIVICA.

46 Yn ehangach, mae'r Bwrdd yn cynnal amrywiaeth o brosesau ar gyfer gwrando ar y staff ac ymgysylltu â nhw. Er enghraifft, Proses Codi Llais heb Ofn a phlatfform Gweithio'n Hyderus y Bwrdd Iechyd sy'n caniatáu i staff godi pryderon diogelwch cleifion a phryderon sy'n gysylltiedig â staff yn gyfrinachol, yn y drefn honno. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn annog rhwydweithiau staff fel y rhwydweithiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a LGBTQ+ ac mae'n hybu cynlluniau cydnabod staff. Mae'r Bwrdd yn ceisio cynnal gwelededd y tu allan i'r teithiau cerdded diogelwch cleifion hefyd, er enghraifft, roedd aelodau'r Bwrdd yn ymweld ag Ysbyty Llwynhelyg yn rheolaidd i gefnogi staff a oedd yn ymdrin â wardiau'n cau ar ôl i Goncrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth gael ei ddarganfod.

## Cydlyniant y Bwrdd a'i ymrwymiad i welliant parhaus

47 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Bwrdd sefydlog a chydlynol gyda fframwaith o uwch-arweinwyr sydd â'r capasiti, y sgiliau a'r profiad priodol;
- y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus; a
- rhaglen datblygu, cefnogaeth a hyfforddiant Bwrdd perthnasol sydd ar waith.

48 Canfuom, **er bod y Bwrdd wedi bod yn sefydlog ac yn gydlynol, ei fod yn mynd drwy gyfnod o newid sylweddol y bydd angen ei reoli'n dda. Fodd**

**bynnag, mae'r dull cadarn o ddatblygu a gwella'r Bwrdd yn darparu sylfaen dda ar gyfer rheoli'r newid hwn**.

49 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod â Bwrdd sefydlog a phrofiadol, ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n mynd drwy gyfnod o newid sylweddol. Ymddeolodd Cadeirydd y Bwrdd ym mis Hydref 2023, gyda'r Is-gadeirydd yn cymryd yr awenau dros dro tan ei ymadawiad ym mis Mawrth 2024. Mae oediadau gyda'r broses recriwtio penodiadau cyhoeddus yn golygu nad oedd y Cadeirydd wedi gallu cael cyfnod trosglwyddo gyda'i eilydd sylweddol. Fodd bynnag, mae'r Is-gadeirydd sy'n gweithredu trefniadau dyrchafiadau dros dro yn darparu parhad yn y tymor byr. Ers ein hasesiad strwythuredig blaenorol, mae'r Bwrdd hefyd wedi ennill dau Aelod Annibynnol newydd, ar gyfer llywodraeth leol a chyfreithiol, yn ogystal â Chynghorydd Strategol ar gyfer cyllid; a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2022, Medi 2023 a Mehefin 2023 yn y drefn honno. Bu newidiadau yn y tîm gweithredol hefyd, lle bu Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd newydd a Chyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd newydd, a ddechreuodd ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2023 yn y drefn honno. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf yn ymddeol ym mis Rhagfyr 2023 ac mae trefniadau interim ar waith. Mae'r Prif Weithredwr yn gadael ym mis Chwefror 2024, ac mae trefniadau dyrchafiadau interim ar waith ar gyfer y Dirprwy Brif Weithredwr. Bydd angen rheoli newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn dda er mwyn sicrhau bod sefydlogrwydd yn parhau, ac y cynhelir perthnasau gwaith da rhwng Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

50 Mae'r Bwrdd yn cynnal dull cadarn ar gyfer dysgu, datblygu, a chyflawni gwelliant parhaus. Mae hyn yn darparu sylfaen dda ar gyfer cynnal Bwrdd sefydlog. Mae Aelodau Annibynnol yn parhau i allu cael cyfleoedd hyfforddi a chyfleodd datblygu'r Bwrdd yn dda, ac maent yn teimlo bod y Cadeirydd (a'r Cadeirydd Interim ar hyn o bryd) yn eu cefnogi'n dda. Mae rhaglen ddatblygu'r Bwrdd, sy'n cynnwys cymysgedd o sesiynau a hwylusir yn fewnol ac yn allanol, yn ddeinamig, sy'n caniatáu i'r Bwrdd ymateb i faterion byw.

51 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cryf ar gyfer adolygu ei effeithiolrwydd, sy'n defnyddio ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol, hunanasesiadau pwyllgorau a hunanadolygiad y Bwrdd o'u cymharu â matrics aeddfedrwydd, sydd wedi aros ar lefel 4[8] allan o 5 ar gyfer 2022–23. Ar gyfer adolygiad effeithiolrwydd 2023–24, mae'r Bwrdd Iechyd yn treialu dull newydd gydag arolwg hunanasesu pwyllgor adnewyddedig a ddilynir gan drafodaeth grŵp, er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o unrhyw faterion. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn treialu'r dull diwygiedig ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ffurfioli sesiynau adrodd i Aelodau Annibynnol ar ôl pob pwyllgor, drwy gyflwyno templed a fydd yn helpu i sicrhau adolygiad parhaus. Mae'r gwelliannau hyn yn dangos ymhellach ymrwymiad y Bwrdd i ddysgu a gwella.

[8] Disgrifir lefel 4 ar y matrics aeddfedrwydd fel 'mae gennym gynlluniau a phrosesau datblygedig a gallwn ddangos gwelliant cynaliadwy drwy'r gwasanaeth'.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

52 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

53 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cynnal a gwella systemau sicrwydd corfforaethol sy'n gysylltiedig ag olrhain risgiau ac argymhellion, a bod gan y Bwrdd oruchwyliaeth briodol. Mae'r dull o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn gwella. Er bod goruchwyliaeth gorfforaethol y perfformiad sefydliadol yn gryf, mae lle i gryfhau sicrwydd ar effeithiolrwydd systemau rheoli perfformiad**.

### Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol

54 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol a chorfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd ac ar waith, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad;
- y Bwrdd yn mynd ati adolygu, diweddaru, defnyddio a derbyn cyfrifoldeb am Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol, gan fynd i'r afael â nhw;
- fframwaith rheoli risgiau priodol a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan gyfrifoldebau, swyddogaethau, gweithdrefnau a pholisïau clir;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar effeithiolrwydd y system rheoli risgiau;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar risgiau corfforaethol.

55 Canfuom fod **y Bwrdd yn parhau i fod â dull aeddfed o oruchwylio risgiau i gyflawni amcanion strategol, a bod goruchwyliaeth a sicrwydd ar ei drefniadau rheoli risgiau gweithredol a chorfforaethol wedi cryfhau**.

56 Mae'r Bwrdd yn parhau i adolygu ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ym mhob cyfarfod arall, a darperir gwaith craffu dyfnach mewn pwyllgorau priodol. Mae defnyddio dangosfwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd rhyngweithiol ac integredig yn caniatáu i risgiau gael eu hadolygu yng nghyd-destun cyflawni amcanion strategol a chynllunio. Mae hyn yn sicrhau nad yw goruchwylio risgiau ac amcanion strategol yn cael eu hystyried yn ymarferion ar wahân ac mae'n caniatáu i fusnes y Bwrdd gael ei hysbysu'n well.

57 Ers ein hasesiad strwythuredig blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adnewyddu ei Strategaeth Rheoli Risgiau a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2023. Fe'i cefnogir gan Fframwaith Rheoli Risgiau sy'n nodi trefniadau rheoli risgiau a swyddogaethau a chyfrifoldebau yn glir ar bob lefel o'r sefydliad.

58 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cynnal goruchwyliaeth gadarn o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae goruchwyliaeth ar lefel y Bwrdd a'r sicrwydd a dderbynnir ar weithgareddau rheoli risgiau corfforaethol a gweithredol wedi eu cryfhau. Mae hwn yn un o'r tri amcan gwella yn y Strategaeth Rheoli Risgiau[9]. Ers mis Chwefror 2023, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi dechrau derbyn Adroddiad Sicrwydd Risg ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd ar weithredu'r fframwaith a'r strategaeth, a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol, gan gynnwys prosesau ar gyfer uwchgyfeirio a gwella risgiau. Er enghraifft, mae'r adroddiad:

- yn dadansoddi sut mae risgiau wedi symud rhwng y brif gofrestr risgiau, y gofrestr risgiau corfforaethol, cofrestr risgiau y gyfarwyddiaeth a chofrestr risgiau y gwasanaeth;
- yn amlygu materion a themâu risg; a
- yn rhoi trosolwg o weithgareddau monitro a goruchwylio risgiau corfforaethol a gweithredol.

59 Mae'r ddau amcan gwella arall yn y Strategaeth Rheoli Risgiau ar y gweill. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ei adolygiad blynyddol o'r lefelau parodrwydd i dderbyn risg a goddefgarwch risg, gyda'r nod o adrodd yn ôl i gyfarfod mis Ionawr 2024 y Bwrdd. Eleni, mae'r Bwrdd wedi defnyddio mater Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth i archwilio parodrwydd i dderbyn risg a goddefgarwch risg. Bydd gwaith i wella trefniadau rheoli risgiau gweithredol yn cael ei brofi ymhellach drwy ein hadolygiad llywodraethu gweithredol ar wahân a adroddir yn 2024.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r perfformiad sefydliadol

60 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar y perfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr, a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan swyddogaethau a chyfrifoldebau clir;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar y perfformiad sefydliadol.

61 Canfuom fod **proses y Bwrdd Iechyd o gynnal goruchwyliaeth gorfforaethol a goruchwyliaeth y Bwrdd, a gwaith craffu ar berfformiad sefydliadol, yn gryf, fodd bynnag, mae lle i gryfhau sicrwydd ar effeithiolrwydd systemau rheoli perfformiad**.

[9] Mae'r Strategaeth Rheoli Risgiau yn nodi tri maes pwyslais allweddol ar gyfer 2023–24, sef diffinio parodrwydd y sefydliad i dderbyn risg a'i ddatganiad goddefgarwch, cryfhau trefniadau rheoli risgiau gweithredol, a chryfhau sicrwydd y Bwrdd ar weithgareddau rheoli risgiau.

62 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i gael dangosfwrdd Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig rhyngweithiol ac adroddiadau cryno sy'n tynnu sylw at gyflawniadau allweddol, meysydd i'w gwella a materion sy'n effeithio ar berfformiad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddefnyddio siartiau Rheoli Prosesau Ystadegol, sy'n tynnu sylw at dueddiadau arferol, tueddiadau sy'n gwella a thueddiadau sy'n peri pryder. Mae Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig mis Medi 2023 yn tynnu sylw at rai tueddiadau perfformiad sy'n gwella, ond mae nifer o dueddiadau sy'n peri pryder a thargedau a fethwyd, sy'n tynnu sylw at bwysau dirfawr y gwasanaeth. Mae'r rhain yn ymwneud ag amseroedd trosglwyddo cleifion o ambiwlansys, arosiadau damweiniau ac achosion brys, llwybr pan fo amheuaeth o ganser ac aros am wasanaethau iechyd meddwl, therapïau ac offthalmoleg.

63 Mae Fframwaith Gwella Gyda'n Gilydd y Bwrdd Iechyd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023, yn nodi trefniadau rheoli perfformiad y sefydliad gan gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau. Mae'r fframwaith yn cefnogi defnydd o ddata i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel o'r sefydliad. Mae'r fframwaith hefyd wedi cefnogi adferiad, a'r broses o ailffurfio, cyfarfodydd adolygu perfformiad lefel gweithredol a roddodd y gorau i gwrdd ar ddechrau'r pandemig. Cynhelir cyfarfodydd Gwella Gyda'n Gilydd y Gyfarwyddiaeth ers mis Ionawr 2023, ac mae cyfarfodydd deufisol ar gyfer cyfarwyddiaethau gweithredol a chyfarfodydd chwech misol ar gyfer cyfarwyddiaethau corfforaethol. O ystyried bod y Bwrdd Iechyd o dan drefniadau Monitro Uwch Llywodraeth Cymru[10] ar gyfer rhai meysydd perfformiad, mae lle i ddangos effeithiolrwydd Fframwaith Gwella Gyda'n Gilydd drwy ddarparu sicrwydd yn gyfnodol fod y trefniadau yn gweithio fel y bwriadwyd (**Argymhelliad 3**).

64 Y llynedd, gwnaethom dynnu sylw at gyfle i'r Bwrdd Iechyd symleiddio ei drefniadau rheoli perfformiad gweithredol **(Atodiad 2 A3 2022)**, a chynnydd ar frys i adolygu ei strwythur gweithredol (**Atodiad 2 A2 2022**). Bydd ein hadolygiad llywodraethu gweithredol ar wahân yn adolygu'r trefniadau hyn ymhellach.

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

65 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

[10] O dan fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd o dan drefniadau Monitro Uwch ar gyfer gofal brys a gofal argyfwng; gofal a gynlluniwyd, gan gynnwys canser; Rhan 1 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed; cyfraddau **Clostridioides Difficile**; Uned Therapi Dwys Ysbyty'r Tywysog Philip; a Gwasanaethau Mamolaeth.

- trefniadau corfforaethol ar waith sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ofynion o dan Ddeddf newydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020);
- fframwaith (neu debyg) ar waith sy'n cefnogi gwaith llywodraethu ansawdd effeithiol;
- strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

66 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn gwella ei ddull o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau a'i fod yn cymryd camau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd**.

67 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau newydd a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020). Mae grŵp gweithredu yn goruchwylio'r broses o roi hyn ar waith o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf. Ers mis Ebrill 2023, pan ddaeth y Ddeddf i rym, mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad wedi cael dau ddiweddariad, y mae'r cyntaf yn nodi'r trywydd ar gyfer gweithredu dyletswyddau gonestrwydd ac ansawdd, ac mae'r ail yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu a'r heriau a wynebir. Mae gan y Bwrdd Iechyd dudalen we un pwrpas at ddibenion y Ddeddf, ac mae gan aelodau y Bwrdd a'r staff yn gallu cael hyfforddiant.

68 Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Bwrdd y Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd diwygiedig (2023–2026); gwaith a gafodd ei ohirio gan y pandemig. Mae gan y fframwaith bwyslais cryf ar wella ansawdd drwy raglen Galluogi Gwella Ansawdd yn Ymarferol, ac mae'r fframwaith yn ymrwymo'r Bwrdd Iechyd i gyflawni dwy raglen Galluogi Gwella Ansawdd yn Ymarferol y flwyddyn.

69 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cynnal goruchwyliaeth o'r Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd drwy'r Adroddiad Sicrhau Ansawdd a Diogelwch a dderbynnir ym mhob cyfarfod. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau diogelwch cleifion, y ddyletswydd gonestrwydd, rheoli heintiau, rhaglen adolygu COVID-19 nosocomiaidd, ac arolygiadau ac adolygiadau gan gymheiriaid, gan gynnwys gweithgareddau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion AGIC y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu rheoli drwy system AMAT[11] i gynorthwyo'r broses o ddysgu.

## Dull corfforaethol o olrhain argymhellion

[11] System rheoli ac olrhain archwiliadau (audit management and tracking) yw AMAT.

70 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar systemau at ddibenion olrhain y cynnydd er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac adolygu. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- systemau priodol ac effeithiol ar waith er mwyn olrhain ymatebion i argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac argymhellion a chanfyddiadau adolygu eraill mewn modd amserol.

71 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn o hyd ar gyfer olrhain argymhellion archwilio ac adolygu.**

72 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn parhau i dderbyn yr Olrheiniwr Archwilio cyfan ym mhob cyfarfod, gydag adroddiad clawr cynhwysfawr sy'n crynhoi statws argymhellion megis nifer yr argymhellion sy'n agored, wedi cau ac yn hwyr, a chamau i'w datblygu nhw. Hefyd, dadansoddir yr argymhellion sy'n agored fesul thema, a rhennir nifer yr argymhellion fesul cyfarwyddiaeth, gan dynnu sylw at wasanaethau sydd â thueddiadau pryderus. Mae'r lefel hon o waith dadansoddi yn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gwbl wybodus a bod ganddo sicrwydd bod y dulliau olrhain yn parhau i fod yn gadarn. Yn weithredol, ers mis Ionawr 2023, caiff cyfarwyddiaethau eu herio ar argymhellion drwy gyfarfodydd Gwella Gyda'n Gilydd y Gyfarwyddiaeth. Ym mis Hydref 2023, cafodd pum argymhelliad Archwilio Cymru hwyr eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

# Dull cynllunio corfforaethol

73 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol ac o oruchwylio'r broses o'u cyflawni.

74 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar ei weledigaeth hirdymor, a bod goruchwyliaeth y Bwrdd a chorfforaethol priodol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Blynyddol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau'r broses o oruchwylio cynlluniau corfforaethol eraill, o wella'r amcanion cynllunio ymhellach ac o adolygu'r capasiti i gefnogi gweithgareddau cynllunio**.

## Dull corfforaethol o lunio strategaethau a chynlluniau

75 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o lunio, goruchwylio, a chraffu ar y broses o ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan y Bwrdd a strategaeth hirdymor ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, sydd wedi eu gwreiddio yn iechyd y boblogaeth, ac wedi eu llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- strategaeth clinigol hirdymor priodol a gymeradwywyd gan y Bwrdd;

- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a llunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a chynlluniau corfforaethol eraill;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau corfforaethol eraill cyn eu cymeradwyo.

76 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar ei weledigaeth hirdymor, a bod gwaith goruchwylio corfforaethol priodol yn cefnogi'r broses o ddatblygu cynlluniau. Fodd bynnag, o ystyried graddfa y gweithgaredd cynllunio, mae capasiti yn parhau i fod yn bryder.**

77 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ei strategaeth hirdymor[12]. Ym mis Mai 2023, cwblhaodd y Bwrdd Iechyd ymgynghoriad 12 wythnos ar dri safle posibl ar gyfer ysbyty gofal brys a gofal a gynlluniwyd newydd yn rhan o'i Achos Busnes Rhaglen, ond fel y sonnir ym **mharagraff 3**, rydym yn dal i ddisgwyl penderfyniad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ansicrwydd hwn yn gadael y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa a allai fod yn fregus gyda:

- disgwyliad uchel gan y cyhoedd, ond risg na fydd y safleoedd posibl ar gael mwyach, ac mae un o'r tri safle posibl eisoes wedi ei dynnu o'r broses;
- cynydd ym mreuder y gwasanaeth;
- materion sy'n ymwneud ag ystad sy'n heneiddio, megis Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth; ac
- amgylchedd economaidd ehangach sy'n fwyfwy heriol lle mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â diffyg mawr y priodolir y rhan fwyaf ohono i fyrddau iechyd.

78 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod na all aros nes bod ysbyty newydd yn cael ei adeiladu ac mae angen iddo ddechrau mynd i'r afael â heriau y gwasanaeth yn awr. O'r herwydd, mae'n datblygu Cynllun Gwasanaethau Clinigol i adolygu gwasanaethau bregus risg uchel[13], ac yn datblygu cynlluniau i'w cefnogi nhw yn y tymor canolig. Fodd bynnag, mae rhagdybiaethau y Bwrdd Iechyd yn ddibynnol ar gyllid ar gyfer ysbyty gofal brys newydd yn cael ei gymeradwyo: nid oes unrhyw gynlluniau eraill pe na fyddai cyllid yn cael ei gymeradwyo. Ar adeg ein gwaith, roedd trefniadau llywodraethu ar gyfer rhaglen y Cynllun Gwasanaethau Clinigol wedi eu sefydlu, gyda'r nod o gyflwyno papur materion i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2024. Fodd bynnag, tynnodd yr wybodaeth ddiweddaraf a gyflwynwyd i gyfarfod Bwrdd mis Medi 2023 sylw at heriau tîm cynllunio a chapasiti clinigol i gefnogi'r rhaglen, gyda newidiadau canlyniadol i amserlenni. Disgwylir i'r papur materion fod yn barod erbyn mis Mawrth 2024.

[12] Cafodd Canolbarth a Gorllewin Iachach ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn 2018 ac mae'n cwmpasu cyfnod o 20 mlynedd.

[13] Ar adeg ein hadolygiad, roedd y rhestr o wasanaethau bregus yn cynnwys gofal critigol, pediatreg brys ac argyfwng, gofal a gynlluniwyd, llawdriniaeth cyffredinol brys, strôc, diagnosteg a gofal sylfaenol.

79 Ym mis Chwefror 2023, rhoddodd y Bwrdd Iechyd wybod i Lywodraeth Cymru na fyddai'n gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n gytbwys yn ariannol. Yn hytrach, fel y gwnaeth yn ystod y blynyddoedd blaenorol, cyflwynodd Gynllun Blynyddol ar gyfer 2023–24. Fel yr adroddwyd y llynedd, roedd ymgysylltiad da â'r Bwrdd wrth ddatblygu'r cynllun. Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses gynllunio flynyddol yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd ac yn sesiynau Seminar y Bwrdd, cyn i'r Cynllun Blynyddol gael ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2023. Roedd hyn yn cynnwys cymeradwyo amcanion cynllunio symlach. Ers i'r Cynllun Blynyddol gael ei gymeradwyo, mae'r Bwrdd wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ym mhob cyfarfod, mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad parhaus y cynllun mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, a gwaith i ailflaenoriaethu'r amcanion cynllunio oherwydd pwysau gweithredol cynyddol a sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu. Ym mis Medi 2023, adolygwyd yr amcanion cynllunio, a gwnaed penderfyniad ar bob un ohonynt ynghylch a ddylid parhau, blaenoriaethu, arafu, neu ohirio'r cynnydd.

80 Arhosodd y broses ar gyfer datblygu'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023–24 heb newid ers blynyddoedd blaenorol i raddau helaeth, ac eithrio ychydig o newidiadau i gryfhau'r broses. Roedd y rhain yn cynnwys rhagor o bwyslais ar fanylion er mwyn datblygu mwy o hyder mewn rhagdybiaethau cynllunio a dileu'r broses o ymgeisio am fuddsoddiad ar lefel y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cysoni'n ddigonol, bu aelodau o'r Tîm Cynllunio yn gweithio gydag arweinwyr y gwasanaeth i ddatblygu cynlluniau hefyd yn hytrach nag arweinwyr yn gweithio ar eu pennau eu hunain (**Atodiad 2 A1 2021**). Er bod hyn yn welliant, mae'r dull hwn yn dibynnu ar y tîm cynllunio i fod â chapasiti digonol, y gwnaethom godi pryderon am hyn mewn asesiadau strwythuredig blaenorol (**Atodiad 2 A2 2021**). Ers y llynedd, mae'r swyddogaeth gomisiynu wedi ei throsglwyddo i'r Tîm Cynllunio, sydd wedi cryfhau'r capasiti a darparu lefel o hydwythedd a hyblygrwydd i'r tîm. Fodd bynnag, o ystyried graddfa heriau y Bwrdd Iechyd, ei ofynion cynllunio yn y dyfodol, a'r angen i gefnogi gwaith cynllunio blynyddol arferol a gwaith cynllunio y gwasanaeth, rydym yn parhau i bryderu am y capasiti cynllunio a chlinigol i gefnogi'r gweithgareddau hyn (**gweler paragraff 77**). Ym mis Ionawr 2023, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol gan gymheiriaid[14] o drefniadau cynllunio y Bwrdd Iechyd, a oedd hefyd yn asesu'r capasiti a'r gallu cynllunio. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu gwella mewn ymateb i ganfyddiadau yr adolygiad annibynnol yn ogystal â chanfyddiadau eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio mewnol ac allanol. Derbyniodd y Pwyllgor Strategol, Datblygu a Chyflawni Gweithredol y cynllun gweithredu ym mis Awst 2023, a darparwyd cynllun manylach a'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ym mis Hydref 2023. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys cynlluniau i werthuso capasiti y

[14] Ceisiodd yr adolygiad annibynnol gan gymheiriaid nodi meysydd i'w gwella er mwyn helpu i wella trefniadau cynllunio y Bwrdd Iechyd, y mae mewn ymyriad wedi ei Dargedu ar eu cyfer. Cafodd y Pwyllgor Strategol, Datblygu a Chyflawni Gweithredol yr adroddiad ym mis Mehefin 2023.

Tîm Cynllunio o'i gymharu â'i lwyth gwaith cyfredol ac i gynnal dadansoddiad bwlch sgiliau er mwyn nodi meysydd i'w gwella ac asesu'r modd gorau o ddefnyddio'r adnoddau presennol o bob rhan o'r sefydliad i gefnogi'r swyddogaeth gynllunio.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau

81 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar y broses o weithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig[15], targedau a chanlyniadau sy'n cynorthwyo gwaith monitro ac adrodd;
- y Bwrdd yn monitro gweithrediad a chyflawniad cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

82 Canfuom fod **trefniadau'r Bwrdd Iechyd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ei Gynllun Blynyddol yn parhau i fod yn gadarn, ac fe'u cefnogir bellach amcanion cynllunio symlach. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i fynegi canlyniadau disgwyliedig ar gyfer amcanion cynllunio, i gryfhau'r broses o oruchwylio cynlluniau corfforaethol eraill ac i ailgysoni amcanion cynllunio ar gyfer yr amcanion strategol cyffredinol tymor hwy**.

83 Ers y llynedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i fynegi ei amcanion cynllunio yn well. Erbyn hyn, mae 23 o amcanion cynllunio yn hytrach na 75, ac maent wedi eu grwpio o'u cymharu ag wyth nod cynllunio strategol. Pennir y nodau strategol o'u cymharu â'r pedwar parth canlynol: ein pobl, ein dyfodol, ein cleifion, a'n cymunedau, ac mae pob parth yn pennu gweledigaeth neu ganlyniad lefel uchel. Yn gyffredinol, mae'r dull hwn o gynllunio amcanion yn haws ei reoli ac fe'u pennir ar lefel fwy strategol. Er hynny, y llynedd, gwnaethom bwysleisio nad oedd y canlyniadau disgwyliedig ar gyfer pob amcan cynllunio wedi eu nodi yng Nghynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd; mae hyn yn parhau i fod yn wir (**Atodiad 2 A4 2022**).

84 Gwnaethom adrodd y llynedd fod y broses o fonitro'r gwaith o gyflawni'r amcanion strategol a chynllunio yn parhau i fod yn gadarn, ac mae hyn yn wir o hyd. Mae'r Bwrdd yn parhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyflawni'r Cynllun Blynyddol yn rheolaidd, drwy adroddiadau sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, adroddiadau sicrwydd pwyllgorau, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig. Fodd bynnag, nid yw'r pedwar parth a'r wyth nod cynllunio strategol yn cyd-fynd yn benodol â chwe amcan strategol (tymor hwy) trosfwaol y Bwrdd Iechyd, sy'n gwneud monitro drwy ddangosfyrddau Fframwaith

[15] Penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig—defnyddir yr acronym SMART ar gyfer hyn yn y Saesneg.

Sicrwydd y Bwrdd ac Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig yn llai eglur (**Argymhelliad 4**).

85 Mae pwyllgorau'n parhau i oruchwylio eu hamcanion cynllunio neilltuedig drwy'r wybodaeth diweddaraf rheolaidd am y cynnydd cyffredinol ac adroddiadau archwiliad dwfn. Mae gan bob amcan cynllunio arweinydd gweithredol, cerrig milltir clir a chyflawniadau diffiniedig gyda chamau gweithredu neu fesurau ategol. Gellir gweld yn glir hefyd pa amcanion cynllunio sy'n ymwneud â blaenoriaethau gweinidogol a lleol.

86 Y llynedd, gwnaethom bwysleisio bod y broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach yn cael ei monitro drwy'r amcanion cynllunio, ond mae diffyg cynlluniau cyflawni annibynnol yn ei gwneud yn anodd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau fesur y cynnydd cyffredinol o'i gymharu â phob cynllun unigol, gan asesu eu heffaith (**Atodiad 2 A5 2022**). Gwnaethom godi'r mater hwn yn ein hadolygiad o drefniadau cynllunio'r gweithlu ar gyfer 2023 hefyd.

# Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

87 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol.

88 Canfuom, **er gwaethaf proses glir ar gyfer cynllunio ariannol a threfniadau rhesymol ar gyfer rheoli a monitro'r sefyllfa ariannol, fod sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn hynod heriol ar gyfer 2023–24**.

## Amcanion ariannol

89 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei hamcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y sefydliad yn cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2022–23, a'r cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2020–21 a 2022–23; a
- y sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2023–24.

90 Canfuom na chyflawnodd **y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol refeniw ar gyfer 2022–23 ac y bydd yn parhau i beidio â'u cyflawni yn 2023–24, a bod y sefyllfa ariannol yn heriol dros ben**.

91 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei amcanion ariannol refeniw a'i ddyletswyddau ar gyfer 2022–23. Adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £59 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn o'i gymharu â'i derfyn adnoddau refeniw, er bod hyn o fewn cyfanswm y diffyg y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, sef £63 miliwn. Adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg cronnus o £108.9 miliwn hefyd ar gyfer cyfnod treigl tair blynedd 2020–2023, gan dorri ei ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon. Fodd bynnag, adroddodd warged fach o £69,000 o'i chymharu â'i derfyn adnoddau cyfalaf.

92 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fod yn analluu cyflwyno cynllun ariannol cytbwys ar gyfer cyfnod tair blynedd 2023–2026 ac yn hytrach mae'n gweithio yn unol â Chynllun Blynyddol sy'n rhagweld diffyg o £112.9 miliwn ar gyfer 2023–24, a diffyg cronnus o £196.9 miliwn ar gyfer cyfnod treigl tair blynedd 2021–2024.

93 Ym Mis 6 2023–24, adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £72 miliwn hyn yn hyn yn ystod y flwyddyn, amrywiad anffafriol o £15.6 miliwn o'i gymharu â'r proffil hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn. Mae amrywiant gweithredol yn parhau i fod yn her i'r Bwrdd Iechyd, gan gyfrif am £9.1 miliwn o'r amrywiant hyd yma. Mae gallu'r Bwrdd Iechyd i aros o fewn ei ddiffyg arfaethedig yn gofyn am gamau lliniaru gwerth £25.5 miliwn ac mae'n ddibynnol ar gwtogi cyflog amrywiol, costau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a gofal iechyd parhaus, a chyflawni'r arbedion gofynnol. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, dywedwyd wrth y Bwrdd Iechyd yn sgil hynny y bydd arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwrthbwyso pwysau costau a lleihau'r cyfanswm rheoli diffyg y cytunwyd arno i £48 miliwn. Mae hyn yn seiliedig ar y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei sefyllfa gychwynnol a ragfynegwyd, er y cydnabu'r Bwrdd Iechyd yn ffurfiol ym mis Hydref 2023 fod ei sefyllfa a ragfynegwyd yn debygol o fod yn uwch.

94 Er bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu aros o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf, ym Mis 6 2023–24, adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £0.7 miliwn hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

95 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn sydd ar waith;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau ariannol cyn eu cymeradwyo;
- arbedion cynaliadwy, realistig, ac sydd wedi eu costio'n gywir a chynlluniau gwella costau ar waith sydd wedi eu cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid y gwasanaeth;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau gwellau costau ac arbedion cyn eu cymeradwyo.

96 Canfuom fod gan **y Bwrdd Iechyd broses glir ar gyfer cynllunio ariannol; er hynny, mae datblygu a chyflawni ei gynllun arbedion yn her**.

97 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses glir ar gyfer datblygu ei gynllun ariannol blynyddol, gan ddefnyddio cyfuniad o ddull o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny i ddeall y pwysau twf lleol a chenedlaethol, herio gofynion buddsoddi a nodi cyfleoedd. Caiff y cynllun ei lywio gan gyfarfodydd Gwella Gyda'n Gilydd y Gyfarwyddiaeth gyda chyfarwyddiaethau gweithredol ac mae'n nodi'r dewisiadau y mae angen eu hystyried.

98 Mae aelodau'r Bwrdd wedi ymgysylltu'n dda â datblygiad y cynllun, ac roedd y Bwrdd a'r Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy yn ymwneud yn llawn â'r broses o graffu ar y cynllun cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun ariannol hirdymor eto (**Atodiad 2 A6 2022**), er bod camau'n cael eu cymryd i fod â chynllun ariannol ddeng mlynedd ar waith o fis Ebrill 2024. Mae gwaith modelu ariannol ar y gweill ar hyn o bryd i gefnogi'r cynllun ariannol deng mlynedd, a darperir yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy.

99 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu ei Fframwaith Cyfleoedd i nodi arbedion, ond mae bylchau yn y cynllun arbedion o hyd ac nid yw'r broses o gyflawni arbedion ar y trywydd iawn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu gofyniad i arbed £19.5 miliwn yn 2023–24. Nodwyd arbedion gan ddefnyddio Fframwaith Cyfleoedd y Bwrdd Iechyd i nodi rhaglenni lle gellir gwneud gwelliannau o ran perfformiad, ansawdd a chost. Dim ond rhaglenni sy'n gallu cyflawni gostyngiad mewn costau a gynhwysir yn y targed arbedion. Yn unol â 2022–23, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cymhwyso targed arbedion i gyfarwyddiaethau gweithredol oherwydd pwysau gweithredol, er y disgwylir y bydd cyfarwyddiaethau yn parhau i fod o fewn y cyllidebau dirprwyedig. Ym Mis 6, roedd angen nodi £6.6 miliwn pellach mewn arbedion. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni arbedion o £8.7 miliwn, gydag amrywiad anffafriol o £1.4 miliwn o'i gymharu â'r proffil. Rhoddodd adroddiad Archwilio Mewnol ym mis Awst 2023 sicrwydd cyfyngedig ar y trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi'r rhaglenni arbedion drwy nodi gwendidau wrth sicrhau bod arbedion yn realistig ac yn gyflawnadwy ac yn y trefniadau llywodraethu i reoli'r rhaglenni. Yn fwy cadarnhaol, o'r cynlluniau a nodwyd, mae tri o bob pedwar ohonynt yn gylchol.

100 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud sylwadau eraill ar ddull y Bwrdd Iechyd o nodi, cyflawni a monitro arbedion ariannol mewn darn o waith ar wahân y byddwn yn ei adrodd yn gynnar yn 2024.

## Dull corfforaethol o reoli ariannol

101 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- rheolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;
- y Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth briodol o drefniadau a pherfformiad sy'n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall sbardunau cost a sut maent yn effeithio ar y broses o gyflawni amcanion strategol; ac
- a gafodd datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2022–23 eu cyflwyno'n brydlon, heb gynnwys camddatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.

102 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar gyfer rheoli ariannol a rheolaethau, ond mae pwysau parhaus yn arwain at orwario**.

103 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau cadarn ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau statudol, ac i adrodd a herio toriadau. Fel y sonnir ym **mharagraff 30**, mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo wedi eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn craffu ar nifer y camau gweithredu tendr sengl, y colledion a'r taliadau arbennig yn rheolaidd drwy'r Adroddiad Sicrwydd Ariannol cynhwysfawr. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr adolygiad cyfredol o weithdrefnau rheoli ariannol yn cael ei hadrodd i bob cyfarfod Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy hefyd, ac adroddir datganiad sicrwydd blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniant gwasanaeth gwrth-dwyll rhagweithiol, ac mae'n ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gwiriadau ar ôl taliadau a gynhelir gan Wasanaethau a Rennir GIG Cymru.

104 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'i sbardunau cost, ac mae rheolaethau ar waith i reoli'r sefyllfa ariannol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod mewn ymyrraeth wedi ei thargedu ers mis Medi 2022 oherwydd ei sefyllfa ariannol. Mewn ymateb i hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cymryd camau i ddeall ei sbardunau costau ac i dynhau'r rheolaeth ariannol. Mae llythyrau atebolrwydd wedi eu dosbarthu i bob cyfarwyddiaeth gweithredol a chorfforaethol sy'n nodi'r gofyniad i aros o fewn y gyllideb, ac mae gwybodaeth ariannol manwl ar gael er mwyn monitro'r cynnydd o'i gymharu â'r cyllidebau. Ym Mis 6, fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r cyfarwyddiaethau gweithredol wedi gorwario oherwydd pwysau gweithredol. Mae nifer o grwpiau rheoli ar waith i fonitro'r broses o gyflawni'r sefyllfa ariannol, gan gynnwys y Grŵp Cyflawni Craidd i oruchwylio'r broses o gyflawni cynlluniau adfer a thrawsnewid, a'r Grŵp Rheoli Ariannol i oruchwylio gwariant ar gyflogau a chaffael. Mae'r Tîm Gweithredol yn goruchwylio'r sefyllfa ariannol yn wythnosol, ac mae cyfarwyddiaethau gweithredol a chorfforaethol yn cael eu dwyn i gyfrif am eu sefyllfa ariannol drwy gyfarfodydd Gwella Gyda'n Gilydd y Gyfarwyddiaeth. Mae adroddiad Archwilio Mewnol ym mis Mehefin 2023 yn rhoi sicrwydd rhesymol ar drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd.

105 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da yn unol â'r amserlen ofynnol. Ni nododd ein harchwiliad unrhyw gamddatganiadau perthnasol, ond nodwyd rhai meysydd lle dylid gwneud cywiriadau. Gwnaeth ein harchwiliad argymhellion i wella'r modd y caiff croniadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd parhaus a gwyliau blynyddol eu rheoli hefyd. Gwnaethom gyhoeddi barn ddiamod mewn cysylltiad â gwirionedd a thegwch y cyfrifon, ond barn rheoleiddio amodol oherwydd bod y Bwrdd Iechyd yn torri ei ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon yn ystod cyfnod treigl tair blynedd 2020–2023.

## Goruchwyliaeth gan y Bwrdd ar y perfformiad ariannol

106 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu'n briodol ar y perfformiad ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn derbyn adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar y perfformiad ariannol, yn ogystal â'r heriau ariannol allweddol, risgiau, a chamau lliniaru;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar asesiadau parhaus sefyllfa ariannol y sefydliad.

107 Canfuom fod gan **y Bwrdd Iechyd drefniadau da o hyd ar gyfer monitro a chraffu ar ei sefyllfa ariannol, er bod angen rhagor o waith craffu ar y rhai sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig am y cyllidebau sydd wedi eu gorwario**.

108 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gael sawl adroddiad ariannol cynhwysfawr. Cyflwynir adroddiad ariannol manwl ym mhob cyfarfod y Bwrdd a'r Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy. Cafodd yr adroddiad ei adnewyddu ar gyfer cyfarfod mis Medi y Bwrdd ac mae'n nodi trosolwg llawer cliriach o'r refeniw, y sefyllfa a ragwelir a'r perfformiad o'i gymharu â'r arbedion gofynnol. Darperir gwybodaeth fanwl hefyd am y sbardunau costau allweddol, amrywiannau ar gyfer pob un o'r cyfarwyddiaethau, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa ariannol. Cynhwysir perfformiad ariannol hefyd yn yr Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig rhyngweithiol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd rhyngweithiol, sydd hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy.

109 Fel y crybwyllir ym **mharagraff 102**, cyflwynir Adroddiad Sicrwydd Ariannol manwl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd, sy'n nodi cydymffurfiaeth â rheolaethau ariannol. Darperir adroddiad manwl ar y perfformiad comisiynu a chontractio i'r Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy hefyd ynghyd ag adroddiad manwl sy'n nodi gwariant cyfalaf, a dangosfwrdd cyfrifyddu newydd sy'n rhoi sicrwydd ar amrywiaeth o agweddau sy'n ymwneud â'r fantolen. Mae Aelodau Annibynnol yn craffu ar bob adroddiad. Fodd bynnag, mae gwaith craffu yn y Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy wedi canolbwyntio ar y Cyfarwyddwr Cyllid a dylai ganolbwyntio llawer mwy ar y rhai sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig am y cyllidebau sy'n cael eu gorwario fwyfwy. Er bod hyn wedi gwella mewn cyfarfodydd diweddar gydag aelodau o'r Grŵp Cyflawni Craidd a'r Grŵp Rheoli Ariannol sydd bellach yn bresennol, gellir gwneud mwy i sicrhau bod gwaith craffu yn canolbwyntio'n briodol ar holl aelodau y tîm gweithredol (**Argymhelliad 5**).

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosiad 2** isod yn nodi’r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni’r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i’r wybodaeth a dynnwyd o’r dulliau isod.

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;<br>• Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch;<br>• Y Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant;<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad;<br>• Y Pwyllgor Strategol, Datblygu a Chyflawni Gweithredol;<br>• Y Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy. |
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylch Gorchwyl y Bwrdd a’r Pwyllgor, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau, a chofnodion;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiant, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig;<br>• dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol sy’n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol; |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol;<br>• polisïau a gweithdrefnau perthnasol; ac<br>• adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r Uwch-swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Y Cadeirydd;<br>• Y Prif Swyddog Gweithredol;<br>• Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifennydd y Bwrdd);<br>• Y Pennaeth Risg a Sicrwydd;<br>• Y Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio;<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Strategol, Datblygu a Chyflawni Gweithredol. |

# Atodiad 2

## Y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol

**Mae Arddangosiad 3** isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol

| Argymhelliad | | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|---|
| A1 | Mae elfennau o wefan y Bwrdd Iechyd nad ydynt yn cael eu diweddaru yn amserol ac mae lle i wella tryloywder busnes y Bwrdd ymhellach. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau:<br>a) y cyhoeddir cofnodion Bwrdd a phwyllgorau nad ydynt wedi eu cadarnhau ar wefan y Bwrdd Iechyd cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ar ôl pob cyfarfod;<br>b) fod agendâu ar gyfer cyfarfodydd preifat y Bwrdd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd cyn y cyfarfod; ac<br>c) bod y fersiwn ddiweddaraf o bolisïau a datganiadau o fuddiannau ar gael i'r cyhoedd ar y wefan (**asesiad strwythuredig 2022**). | a) Cwblhawyd—gweler **paragraff 27**.<br>b) Cwblhawyd—gweler **paragraff 28**.<br>c) Cwblhawyd—gweler **paragraff 32**. |
| A2 | Er bod rhai newidiadau wedi eu gwneud, mae'r strwythur gweithredol yn dal i beri risgiau i strwythurau llywodraethu dryslyd ac anghyson. O ystyried maint a chymhlethdod yr heriau a'r risgiau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu, mae'n bwysig bod gwaith arfaethedig i ddiwygio'r strwythurau gweithredol a'r trefniadau llywodraethu cysylltiedig yn gwneud cynnydd ar frys (**asesiad strwythuredig 2022**). | Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei ddilyn drwy ein hadolygiad llywodraethu gweithredol—gweler **paragraff 64**. |

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| A3 Er bod trefniadau perfformiad yn bodoli ar lefel weithredol, mae lle i ddod â'r rhain at ei gilydd mewn adolygiad perfformiad cyfannol. Ochr yn ochr â chyflwyno ei Fframwaith Gwella Gyda’n Gilydd, dylai’r Bwrdd Iechyd edrych eto ar ei drefniadau rheoli perfformiad i sicrhau bod dull cydgysylltiedig ar lefel weithredol (**asesiad strwythuredig 2022**). | Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei ddilyn drwy ein hadolygiad llywodraethu gweithredol—gweler **paragraff 64**. |
| A4 Nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi nodi canlyniadau disgwyliedig ar gyfer ei holl amcanion cynllunio a nodir yn ei Gynllun Blynyddol. Wrth ddiwygio ei amcanion cynllunio ar gyfer 2023–2026, mae angen i’r Bwrdd Iechyd fynegi’n glir y canlyniadau disgwyliedig ar gyfer ei set symlach o amcanion cynllunio (**asesiad strwythuredig 2022**). | Ni chwblhawyd—gweler **paragraff 83**. |
| A5 Nid oedd cynlluniau gweithredu’n bodoli bob amser i gefnogi strategaethau galluogi corfforaethol ac nid oeddent yn cynnwys cerrig milltir, targedau, na chanlyniadau bob amser ychwaith. Mae’n rhaid i’r Bwrdd Iechyd sicrhau:<br>• bod y cynlluniau gweithredu presennol yn cynnwys cerrig milltir, targedau, a chanlyniadau clir; a<br>• bod cynlluniau gweithredu wedi eu datblygu ar gyfer galluogi strategaethau nad oes ganddynt un ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â monitro amcanion cynllunio unigol perthnasol, bydd hyn yn galluogi adolygiad cyfnodol o’r cynnydd cyffredinol o ran cyflawni’r strategaethau galluogi (**asesiad strwythuredig 2022**). | Ar y gweill—gweler **paragraff 86**. |

| Argymhelliad | | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|---|
| A6 | Nid yw cynllun adfer ariannol tymor hwy y Bwrdd Iechyd wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu’r heriau ariannol a brofir yn 2022–23. Mae angen i’r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei gynllun adfer ariannol tymor hwy ar gyfer 2023 ymlaen, gan sicrhau yr adlewyrchir cyfleoedd i wella (**asesiad strwythuredig 2022**). | Ar y gweill—gweler **paragraff 98**. |
| A1 | Nid yw cynllunwyr yn chwarae rhan ym mhob proses gynllunio ac mae’n rhaid iddynt ddibynnu ar eraill i sicrhau bod y cynlluniau’n gyson. Dylai’r Bwrdd Iechyd drefnu cyfrifoldebau unigol dros sicrhau bod prosesau cynllunio allweddol yn cael eu cysylltu’n effeithiol (**asesiad strwythuredig 2021**). | Ar y gweill—gweler **paragraff 80**. |
| A2 | Mae’r tîm cynllunio wedi mabwysiadu dull ‘partneru busnes’ i gefnogi’r gwaith o ddatblygu’r cynlluniau gweithredol chwarterol, sydd wedi gweithio’n dda, ond bu gorddibyniaeth ar un unigolyn yn y tîm cynllunio oherwydd cyfyngiadau capasiti. Dylai’r Bwrdd Iechyd adolygu ei gapasiti cynllunio er mwyn sicrhau bod cadernid yn rhan o’r tîm, a bod yr arbenigedd a’r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi’r broses gynllunio yn cael eu datblygu ar draws holl aelodau’r tîm (**asesiad strwythuredig 2021**). | Ar y gweill—gweler **paragraff 80**. |

# Atodiad 3

## Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: Ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio**

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | **Gwella tryloywder cyhoeddus**<br>Canfuom fod papurau'r Bwrdd Cyhoeddus yn cynnwys crynodeb lefel uchel o gyfarfodydd preifat y Bwrdd. Er mwyn gwella tryloywder ymhellach, dylid estyn y trefniad hwn i gyfarfodydd pwyllgorau preifat drwy adroddiadau sicrwydd pwyllgorau unigol a dderbynnir gan y Bwrdd. | Bydd templed Adroddiad Diweddaru'r Pwyllgor i'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru er mwyn cynnwys adran 'Materion Allweddol sy'n cael eu hystyried yn y Pwyllgor'. Bydd y rhain yn cael eu cwblhau erbyn cyfarfod mis Ionawr 2024 y Bwrdd. | Cwblhawyd | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A2 | **Teithiau cerdded diogelwch cleifion gan aelod o'r Bwrdd**<br>Mae aelodau o'r Bwrdd yn cynnal teithiau cerdded Diogelwch Cleifion yn rheolaidd, gyda chefnogaeth aelod o'r tîm diogelwch cleifion sy'n cymryd nodiadau, gyda phroses glir o roi sylwadau i'r gwasanaethau yr ymwelwyd â nhw ac o fonitro pwyntiau gweithredu. Fodd bynnag, nid oedd y rhai a gyfwelwyd gennym yn glir ynghylch yr hyn a ddigwyddodd ar ôl yr ymweliad. Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro proses Taith Cerdded Diogelwch Cleifion gydag Aelodau Annibynnol newydd. | Bydd cyfarwyddyd adnewyddedig ar swyddogaeth a chynnwys y Teithiau Cerdded Diogelwch Cleifion yn cael ei ddrafftio i'w ddefnyddio i gynefino'r holl Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol newydd.<br><br>Bydd trefniadau adrodd a monitro yn dilyn Teithiau Cerdded Diogelwch Cleifion yn cael eu hadnewyddu a'u hailgadarnhau ar gyfer yr holl gyfranogwyr. Mae adroddiadau'n canolbwyntio ar weithredu ac yn cael eu paratoi gan y Tîm Sicrhau Ansawdd. Mae'r holl gamau gweithredu yn cael eu cofnodi ar system AMAT ac yn cael eu monitro drwy'r Tîm Sicrhau Ansawdd.<br><br>Bydd y Pennaeth Sicrhau Ansawdd yn adolygu ac ailddosbarthu llawlyfr Taith Cerdded Diogelwch Cleifion adnewyddedig i holl aelodau'r Bwrdd.<br><br>Ystyrir darparu diweddariad Taith Cerdded Diogelwch Cleifion i aelodau y Bwrdd mewn Seminar y Bwrdd yn y dyfodol. Dylid paratoi blaengynllun gwaith drwy'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd. | 31 Mawrth 2024<br><br>31 Mawrth 2024<br><br>31 Mawrth 2024<br><br>30 Gorffennaf 2024 | Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf |
| A3 | **Sicrwydd y trefniadau rheoli perfformiad**<br>O ystyried bod y Bwrdd Iechyd o dan drefniadau Monitro Uwch Llywodraeth | Byddwn yn comisiynu adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd Fframwaith Gwella Gyda'n Gilydd o Archwilio Mewnol. Byddwn yn gofyn i'r adolygiad cyntaf gael ei gynnal yn ystod Ch1 2024–25. | 31 Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | Cymru ar gyfer rhai meysydd gwasanaeth, mae lle i ddangos effeithiolrwydd Fframwaith Gwella Gyda'n Gilydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull o roi sicrwydd yn gyfnodol fod ei drefniadau rheoli perfformiad yn gweithio fel y bwriadwyd. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A4** | **Cysoni amcanion cynllunio a strategol**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i fynegi ei amcanion cynllunio yn ei Gynllun Blynyddol 2023–24 yn well drwy symleiddio'r amcanion cynllunio a'u cymharu ag wyth nod cynllunio strategol a phedwar parth. Fodd bynnag, nid yw'r parthau a'r nodau cynllunio strategol yn gydnaws yn benodol â chwe amcan strategol trosfwaol y Bwrdd Iechyd, fel y nodir yn ei ddangosiadau Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a'r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig. Yn rhan o'r cylch cynllunio nesaf, dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'n fwy penodol sut mae pob un o'i amcanion cynllunio yn cysylltu â'i amcanion strategol. | Mae proses a chynllun gweithredu wedi eu manylu yn rhan o'r Cylch Cynllunio ar gyfer datblygu Cynllun 2024–25.<br><br>Mae'r broses a'r cynllun gweithredu hwn (fel y manylir yn yr atodiad) yn nodi'r broses ar gyfer adolygu'r Amcanion Strategol, yr Amcanion Cynllunio a chael gwared ar y pedwar parth cynllunio i symleiddio'r broses.<br><br>Mae camau hefyd wedi eu cynnwys er mwyn sicrhau bod Amcanion Cynllunio yn cael eu cysoni'n briodol â Phwyllgorau priodol y Bwrdd at ddibenion sicrwydd, a diwygio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. | 31 Mawrth 2024 | Y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio |
| **A5** | **Craffu ariannol**<br>Er bod lefel dda o waith craffu ar sefyllfa ariannol y Pwyllgor Adnoddau | Mae gwell dealltwriaeth ymhlith Aelodau y Bwrdd bod achosion ein heriau ariannol yn ymwneud â'r cyfluniad strategol, gweithredol a chlinigol a'r dewisiadau a wneir ar draws y sefydliad. | Cwblhawyd | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | Cynaliadwy, ar y Cyfarwyddwr Cyllid y mae'r gwaith craffu wedi canolbwyntio'n bennaf. Er bod hyn wedi gwella mewn cyfarfodydd diweddar gydag aelodau o'r Grŵp Cyflawni Craidd a'r Grŵp Rheoli Ariannol sydd bellach yn bresennol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i sicrhau bod y gwaith craffu a wneir gan Aelodau Annibynnol yn canolbwyntio'n briodol ar holl aelodau y tîm gweithredol. | O ganlyniad, mae gwaith craffu wedi symud fwyfwy i'r meysydd hyn yn rhan o'r Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy a thrafodaethau y Bwrdd. Hwyluswyd hyn gan bresenoldeb ehangach a welir bellach yn y Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy. | | |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan https://www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.